# Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth

| |
|---|
| Statws y ddogfen: Cymeradwywyd |
| Fersiwn: 4 |
| Dyddiad cymeradwyo: 30 Ionawr 2024 |
| Ar waith o: Chwefror 2024 |
| Perchennog: Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth |
| Awdur: Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth |
| Dyddiad adolygu nesaf arfaethedig: Chwefror 2027 |

## Cynnwys

Datganiad Polisi .......... 3

Pwrpas .......... 3

Trosolwg o'r Fframwaith a'r Cwmpas .......... 3 - 4

Rhestr Termau .......... 4 - 7

Cydymffurfio .......... 7 - 9

Addasiadau Rhesymol .......... 9

Tryloywder .......... 9

## 1. Datganiad Polisi

1.1 Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein proses Llywodraethu Gwybodaeth yn effeithiol, yn ystyried preifatrwydd ar y cam dylunio, ac yn ein galluogi i fod yn dryloyw, yn gyfrifol ac yn flaengar.

1.2 Mae gennym ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Optegwyr 1989 ("y Ddeddf") i brosesu gwybodaeth bersonol i'n galluogi i gyflawni ein swyddogaethau statudol, gan gynnwys ein dyletswydd i ddatgelu, i rannu ac i gyhoeddi gwybodaeth bersonol pan fydd hynny er budd y cyhoedd.  Rydym yn gwneud hyn gan ystyried ein cyfrifoldebau gwybodaeth yn ofalus, o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data, Deddf Hawliau Dynol 1998, a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), i sicrhau bod ein defnydd o ddata personol yn gyfreithlon ac yn cael ei reoli'n briodol, a bod hawliau'r unigolyn yn cael eu parchu.

1.3 Er mwyn cyflawni ein dyletswyddau statudol yn effeithiol, rydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth am y bobl rydym yn gweithio gyda nhw.  Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth trydydd parti wrth gyflawni ein dyletswyddau statudol. Mae'r bobl – sy'n cael eu galw yn 'wrthrychau'r data' – yn cynnwys ein cyflogeion, aelodau a gweithwyr, cofrestreion, aelodau o'r cyhoedd, rhanddeiliaid, contractwyr a chyflenwyr, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

1.4 Rydym yn deall ein cyfrifoldebau fel rheolydd data, sydd wedi'i gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, fel rhwymedigaeth sylfaenol yn ein rôl fel rheoleiddiwr a chorff cyhoeddus.

1.5 Mae'r fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth hwn yn cynnwys pum polisi y mae'n rhaid i holl gyflogeion, aelodau, gweithwyr a chontractwyr y Cyngor Optegol Cyffredinol gadw atynt, yn ogystal â'r bobl hynny sy'n gweithio ar eu rhan (cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel proseswyr data'r Cyngor Optegol Cyffredinol).  Mae'r fframwaith a'r polisïau cysylltiedig yn cael eu hategu gan ganllawiau adrannol lleol i gael rhagor o fanylion am ddisgwyliadau gweithredol penodol.

## 2. Pwrpas

2.1 Mae'r fframwaith hwn a'r polisïau cysylltiedig yn bwynt cyfeirio canolog ar gyfer ein dull o lywodraethu gwybodaeth yn dda. Bwriad y fframwaith yw helpu cyflogeion, aelodau, gweithwyr, contractwyr a'r bobl hynny sy'n gweithio ar ein rhan i ddod o hyd i'r polisi priodol sydd ei angen arnynt yn gyflym.

## 3. Trosolwg o'r Fframwaith a'r Cwmpas

3.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl gyflogeion, aelodau, gweithwyr, contractwyr, a'r bobl sy'n gweithio ar ein rhan (naill ai dros dro neu'n barhaol) y mae disgwyl iddynt weithredu yn unol â'r fframwaith hwn a pholisïau cysylltiedig.

3.2 Mae cydymffurfio â’r polisi hwn yn orfodol. Mae’n gallu bod yn fater disgyblu os nad fydd cyflogeion yn cydymffurfio. Mae diffyg cydymffurfio ar gyfer aelodau yn torri telerau'r penodiad a gallai arwain at ymchwiliad o dan y cod ymddygiad.

3.3 Mae’r fframwaith hwn a’r polisïau cysylltiedig yn berthnasol i’r holl ddata y mae’r Cyngor Optegol Cyffredinol yn ei gaffael, ei ddal neu ei brosesu – gan gynnwys data personol, data categori arbennig a data cyfrinachol.

3.4 Gellir cadw’r data hwn ar unrhyw ffurf neu fformat, gan gynnwys fersiwn electronig neu gopi caled, ac mae’n cynnwys cronfeydd data, taenlenni, adroddiadau, cofnodion meddygol, dyddiaduron, negeseuon e-bost, teledu cylch cyfyng, recordiadau sain, ffeiliau papur a nodiadau mewn llawysgrifen.

3.5 Rhaid i wybodaeth nad yw’n bersonol gael ei rheoli a’i diogelu’n briodol hefyd, ac mae llawer o’r egwyddorion yn y polisi hwn yn berthnasol i wybodaeth nad yw’n bersonol ac felly rhaid eu cymhwyso’n unol â hynny.

3.6 Mae’r fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth yn cynnwys pum polisi:

- **Polisi Diogelu Data** - mae’n amlinellu ein dull o gydymffurfio â GDPR y DU a’r Ddeddf Diogelu Data 2018 a rheoliadau data eraill, gan gynnwys ein rolau a’n cyfrifoldebau, ein cydymffurfiad â saith egwyddor y Ddeddf Diogelu Data, yn ogystal â delio â cheisiadau am ddata personol;
- **Polisi Rhyddid Gwybodaeth** – mae’n amlinellu ein dull o reoli ein dyletswyddau Rhyddid Gwybodaeth, gan gynnwys ein cynllun cyhoeddiadau, ac ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- **Polisi Datgelu** – mae’n amlinellu ein dull o ddatgelu gwybodaeth bersonol a’n dull o gyhoeddi gwybodaeth;
- **Polisi Cytundeb Rhannu Data** – mae’n amlinellu ein hamodau ar rannu gwybodaeth â thrydydd partïon. Mae hyn yn cynnwys y templed a ddefnyddir ar gyfer ein Cytundebau Rhannu Data;
- **Polisi Amserlen Cadw Data** – mae’n amlinellu ein dull o gadw, storio a chynnal gwybodaeth.

3.7 Mae’r fframwaith a’r polisïau’n cael eu hategu gan sesiynau briffio unigryw ar gyfer cynefino i adrannau ar dorri rheolau data a Llywodraethu Gwybodaeth.

3.8 Mae ein polisi Technoleg Gwybodaeth yn manylu ar ein hagwedd at ddiogelwch TG a defnydd teg o bob dyfais electronig. (Polisi Technoleg Gwybodaeth)

## 4. Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Asesiad o’r Effaith ar Breifatrwydd** | Asesiad i helpu i nodi’r ffordd fwyaf effeithiol o gydymffurfio â’n rhwymedigaethau diogelu data a bodloni disgwyliadau unigolion o breifatrwydd. |

| | |
|---|---|
| **Budd y cyhoedd** | O fewn llywodraethu gwybodaeth, ystyrir hyn yn gyffredinol fel rhywbeth sy’n gwasanaethu buddiannau’r cyhoedd. |
| **Cais am fynediad at ddata gan y testun (SAR)** | Cais am wybodaeth bersonol o dan ddeddfau deddfwriaeth cyfredol. |
| **Cyfrinachedd** | Data sy’n cael ei roi ‘yn gyfrinachol’ |
| **Cytundeb Peidio â Datgelu (NDA)** | Mae contract sy’n rhwymo’n gyfreithiol yn sefydlu perthynas gyfrinachol wrth ymdrin â gwybodaeth. |
| **Cytundeb Rhannu Data** | Cytundeb sy’n nodi dibenion rhannu gwybodaeth. |
| **Data** | At ddibenion y ddogfen hon, mae’r termau data a gwybodaeth yn gyfystyr. |
| **Deddf Diogelu Data (2018)** | Deddf Diogelu Data 2018 a deddfwriaeth a fydd yn disodli sy’n nodi hawliau unigol gwrthrych y data o ran diogelu data a phreifatrwydd data. |
| **Deddfwriaeth Diogelu Data** | Mae’n cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, fel Deddf Gyffredinol Diogelu Data y DU a’r Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig sy’n cyd-fynd â Deddf Gyffredinol Diogelu Data y DU. |
| **Digwyddiad Diogelwch Gwybodaeth** | Term cyffredinol i ddisgrifio achos o dorri diogelwch data neu ddigwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd. |
| **Digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd** | Digwyddiad heb ei gynllunio lle’r oedd perygl y gallai rhywun heb awdurdod gael gafael ar wybodaeth bersonol neu’r oedd perygl y byddai gwybodaeth bersonol yn cael ei cholli neu ei llygru. |
| **Dinistrio** | Dinistrio gwybodaeth yn barhaol. |
| **Gwrthrych y data** | Yr unigolyn sy'n destun y wybodaeth bersonol. |

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth** | Mae'r fframwaith hwn yn cyfeirio at saith categori gwybodaeth: cyfrinachol, personol, data personol categori arbennig (sensitif), troseddau, dienw a dan ffugenw.<br><br>**Gwybodaeth gyfrinachol** - Mae gwybodaeth gyfrinachol yn golygu unrhyw wybodaeth nad yw'n wybodaeth gyhoeddus sy'n ymwneud â'r Cyngor Optegol Cyffredinol.<br><br>**Data personol** – Mae data personol yn golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn naturiol y gellir ei adnabod ("gwrthrych y data"). Mae unigolyn y gellir ei adnabod yn unigolyn y mae modd ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn enwedig drwy gyfeirio at ddynodwr fel enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein neu un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, seicolegol, genetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol yr unigolyn hwnnw.<br><br>**Data personol categori arbennig (Sensitif) –** Data personol categori arbennig (Sensitif) yw data personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig; safbwyntiau gwleidyddol; credoau crefyddol neu athronyddol; aelodaeth o undeb llafur, data sy'n ymwneud ag iechyd neu fywyd rhywiol a chyfeiriadedd rhywiol; data genetig neu ddata biometrig.<br><br>**Data sy'n ymwneud â throseddau** – dim ond awdurdodau cenedlaethol sy'n cael prosesu data sy'n ymwneud â throseddau. Gall cyfraith genedlaethol ddarparu rhanddirymiadau, yn amodol ar fesurau diogelu addas. Dim ond yr awdurdod cenedlaethol cyfrifol gaiff gadw cofrestrau cynhwysfawr o droseddau. Yn y polisi hwn, cyfeirir at y wybodaeth hon fel **data personol categori arbennig**, ond mae amodau penodol gwahanol ar gyfer prosesu'r data hwn.<br><br>**Data dienw** - data nad yw'n adnabod unigolyn, naill ai'n uniongyrchol neu drwy grynhoi, hyd yn oed o'i gyfuno â gwybodaeth arall gan wahanol asiantaethau<br><br>**Data dan ffugenw** – Mae data dan ffugenw yn dal i gael ei drin fel data personol oherwydd ei fod yn galluogi unigolion i gael eu hadnabod (er drwy allwedd). Os yw'r "allwedd" yn golygu bod modd ailadnabod unigolion, dylid ei drin fel data personol.<br><br>Gall unigolyn ystyried bod gwybodaeth benodol amdano'i hun yn arbennig o breifat a gall ofyn i eitemau data eraill gael eu cadw'n gyfrinachol ee defnyddio ffugenw lle mae angen cadw'r gwir hunaniaeth er mwyn eu hamddiffyn. |

| | |
|---|---|
| **Llywodraethu Gwybodaeth** | Manyleb ar hawliau penderfynu a fframwaith atebolrwydd i sicrhau ymddygiad priodol wrth brisio, creu, storio, defnyddio, archifo a dileu gwybodaeth. |
| **Perchennog Asedau Gwybodaeth** | Perchennog Asedau Gwybodaeth |
| **Prosesydd data** | Mae ein holl gyflogeion, aelodau, gweithwyr, contractwyr a'r bobl sy'n prosesu data ar ein rhan yn broseswyr data.  Maen nhw'n gyfrifol am drin gwybodaeth yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol a'n polisïau a'n gweithdrefnau gweithredol. |
| **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol** | Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol |
| **Rheolydd data** | Yn gyfrifol am bennu pwrpas a defnydd y data y mae'n ei gadw, ei brosesu a'i drosglwyddo. |
| **Rhyddid Gwybodaeth** | Mae'r ddeddfwriaeth yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) yn rhoi'r hawl i bobl ofyn am wybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus. |
| **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: y sefydliad sy'n goruchwylio cydymffurfiad â deddfwriaeth diogelu data, y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a deddfwriaeth arall. |
| **Swyddog Diogelu Data** | Swyddog Diogelu Data |
| **Torri diogelwch data** | Tanseilio diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, newid, datgelu heb awdurdod, neu fynediad at ddata personol. |
| **Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)** | Gweithiwr proffesiynol sy'n gyfrifol am weithredu a rheoli risgiau gwybodaeth yn y sefydliad. |

## 5. Cydymffurfio

5.1 Mae'r adran hon yn amlinellu'r cydymffurfiad sy'n ofynnol ym mhob un o'r polisïau sy'n rhan o'r Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth.

5.2 Mae'r holl gyflogeion, aelodau, gweithwyr, contractwyr a'r bobl sy'n gweithio ar ein rhan yn gyfrifol am weithredu'n unol â'r ddeddfwriaeth a'r egwyddorion a'r gweithdrefnau a nodir ym mholisïau'r fframwaith hwn a'r prosesau Llywodraethu Gwybodaeth lleol cysylltiedig.

5.3 Mae rheolwyr yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth eu timau yn rheolaidd ac am fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio. Bydd cydymffurfiaeth yn cael ei dilysu drwy ddulliau amrywiol gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wiriadau cydymffurfio cyfnodol, ac archwiliadau mewnol ac allanol. Mae'r Tîm Uwch-Reolwyr yn gyfrifol am

fonitro cydymffurfiad â'r polisïau, ynghyd â'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Chyllid. Nodir y trefniadau adrodd yn yr adran 'tryloywder' isod.

5.4 Gall methu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r fframwaith hwn a/neu bolisïau cysylltiedig arwain at gamau disgyblu, a gall methu â chydymffurfio hefyd arwain at erlyn unigolyn.

5.5 Rhaid i'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth gymeradwyo unrhyw eithriadau i'r fframwaith hwn a'r polisïau cysylltiedig ymlaen llaw.

5.6 Rhaid i'r sawl sydd wedi darganfod y digwyddiad ("yr hysbyswr") roi gwybod am achosion gwirioneddol, amheuaeth o dor-ddiogelwch neu achosion posibl, ac mae'n rhaid iddynt ddarllen a chydymffurfio â'r isod:

- Disgwylir i'r holl gyflogeion, aelodau, gweithwyr, contractwyr a'r bobl sy'n gweithio ar ein rhan roi gwybod ar unwaith am achosion gwirioneddol, amheuaeth o dor-ddiogelwch neu achosion posibl o dorri diogelwch gwybodaeth.

- Rhaid rhoi gwybod am hyn o fewn 24 awr ar ôl dod yn ymwybodol o'r tor-ddiogelwch, rhaid i'r hysbyswr gyflwyno ffurflen rhoi gwybod am ddigwyddiad diogelwch a'i hanfon at y Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth, ei reolwr llinell a chyfarwyddwr yr adran. Gall peidio â rhoi gwybod o fewn yr amserlen hon gael ei ystyried yn drosedd disgyblu.

- Mae hyn yn bwysig oherwydd os yw'r digwyddiad yn risg uchel, efallai y bydd angen rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr i'r adeg pan fydd rhywun (yr hysbyswr, trydydd parti, ac ati) yn dod yn ymwybodol am y tro cyntaf o'r digwyddiad.

- Bydd angen i'r Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth gwblhau ymchwiliad i'r digwyddiad. Os yw'r digwyddiad yn un difrifol, gellir ystyried cynnal ymchwiliad llawn yn unol â'n Polisi Ymchwilio.

- Disgwylir i unrhyw reolwr sy'n cael gwybod am y tor-ddiogelwch yn unol â'r polisi hwn wneud pob ymdrech i leihau'r effaith, mewn cydweithrediad â'r Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth.

- Bydd y Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth yn sicrhau bod y camau canlynol yn cael eu cwblhau'n brydlon i ddelio ag unrhyw dor-ddiogelwch. Defnyddiwch ein proses reoli fewnol wrth roi gwybod am achos o dorri rheolau. (Y broses i ddelio â Thorri Diogelwch Data).

- Wedyn, bydd y digwyddiad yn cael ei adrodd i'r tîm uwch-reolwyr, a fydd yn trafod y canlyniad a'r camau gweithredu.

- Ar ôl cwblhau ymchwiliad, bydd yr holl adroddiadau am ddigwyddiadau yn cael eu cymeradwyo gan y Swyddog Diogelu Data, a fydd wedyn yn

penderfynu a oes angen rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am y tramgwydd.

- Bydd yr adran(nau) priodol yn rhoi mesurau adferol a pharhaol ar waith i liniaru’r risg o ail-ddigwyddiad tebyg a byddant yn cael eu cefnogi gan y Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth.

- Bydd y Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth yn cofnodi’r holl gamau a gymerwyd a’r gwersi a ddysgwyd o’r digwyddiad neu’r digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, a bydd yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rhannu â’r sefydliad bob hyn a hyn ar gyfer codi ymwybyddiaeth a dysgu parhaus.

5.7 Os bydd unrhyw unigolyn yn addasu, yn difetha, yn blocio, yn dileu, yn dinistrio neu’n cuddio unrhyw gofnod sydd gan awdurdod cyhoeddus gyda’r bwriad o atal datgelu gwybodaeth i ymgeisydd sydd wedi gwneud cais Rhyddid Gwybodaeth neu Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun, byddant yn euog o drosedd.

## 6. Addasiadau Rhesymol

6.1 Os bydd angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch i ddefnyddio neu gydymffurfio â’r grŵp hwn o bolisïau, cysylltwch â’r Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant neu’r tîm Pobl a Diwylliant (ar gyfer cyflogeion) i drafod eich gofynion ymhellach:

| | |
|---|---|
| Ffôn: | 020 7580 3898 (switsfwrdd) |
| E-bost: | edi@optical.org |
| Post: | Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Pobl a Diwylliant<br>Y Cyngor Optegol Cyffredinol<br>10 Old Bailey<br>Llundain,  EC4M 7NG |

6.2 Os bydd angen cymorth ar aelodau o’r cyhoedd i gyflwyno eu cais yn ysgrifenedig, dylid eu cyfeirio at y Tîm Pobl a Diwylliant, a fydd yn gwneud pob ymdrech resymol i’w cefnogi.

6.3 Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu yn y fformat y gofynnir amdano, lle bo hynny’n bosibl. Rhoddir ystyriaeth arbennig i’r rhai sy’n gofyn am wybodaeth ar ffurf fwy hygyrch (er enghraifft, print bras neu Braille).

## 7. Tryloywder

7.1 Bydd y fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth a’r polisïau cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Byddwn yn adrodd ar gydymffurfio â’n fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth a’n polisïau i’r Tîm Uwch-reolwyr a’r Pwyllgor Archwilio a

Risg bob tri mis. Gall gwybodaeth hefyd gael ei chynnwys yn ein hadroddiadau blynyddol neu ein hadroddiadau perfformiad.

7.2 Byddwn yn storio'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r prosesau hyn yn ddiogel ac yn unol â'n Hamserlen Cadw Data, gan sicrhau ei bod yn cael ei dinistrio'n ddiogel pan fo hynny'n briodol.

7.3 Byddwn yn adolygu ein Cofrestr Asedau Gwybodaeth yn rheolaidd yn unol â'n polisi Cadw Data i sicrhau bod gennym y mecanweithiau diogelwch priodol ar waith ar gyfer y data rydym yn ei brosesu.